

**Albert Heaney**  
**Dirprwy Cyfarwyddwr Cyffredinol**  
**Deputy Director General**  
**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Health and Social Services**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

At: Rheolwyr Cofrestredig ac Unigolion Cyfrifol (Gwasanaethau Cartrefi Gofal i Oedolion)

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Gyfeillion

Rydym yn ymwybodol bod argaeledd gwagle digonol i gefnogi ymweliadau gan sicrhau pellter cymdeithasol wedi bod yn broblem i rai darparwyr cartrefi gofal. Mae hyn yn arbennig o anodd yn ystod misoedd y gaeaf.

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynllun peilot podiau ymweld ar gyfer cartrefi gofal ar 23 Tachwedd. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cynllun peilot lle bydd podiau ymweld yn cael eu llogi dros dro i greu gwagle ychwanegol er mwyn i gartrefi gofal i oedolion fedru cynnal ymweliadau gan sicrhau pellter cymdeithasol. Mae rhai podiau ymweld wedi'u caffael yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac maent yn cael eu cyflenwi am ddim i gartrefi gofal sy'n cymryd rhan yn y peilot am gyfnod o 26 wythnos. Mae darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion sy'n dymuno cymryd rhan yn y cynllun wedi cyflwyno datganiadau o ddiddordeb. Hysbyswyd yr ymgeiswyr llwyddiannus ac mae'r podiau ymweld sydd ar gael wrthi'n cael eu danfon iddynt. Gall cartrefi gofal y dyrannwyd pod ymweld iddynt o dan y cynllun peilot hwn wneud cais i gael gafael ar arian i dalu am gostau yswiriant ychwanegol yr eir iddynt mewn perthynas â'r pod tra bydd yn ei le ar safle'r cartref gofal drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol.

Efallai y bydd rhai darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion yn dymuno gwneud eu trefniadau cyfatebol eu hunain yn uniongyrchol gyda chyflenwyr, gan logi eu pod ymweld eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu hyd at £1 filiwn o gyllid yn y flwyddyn ariannol hon (2020-21) i alluogi i ddarparwyr hawlio ad-daliad o'r costau llogi ymlaen llaw ac unrhyw gostau yswiriant ychwanegol yr eir iddynt mewn perthynas â'r pod tra bydd yn ei le ar safle'r cartref gofal drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol.

## **Hawlio ad-daliad o gostau sy'n ymwneud â llogi podiau ymweld o dan y cynllun peilot podiau ymweld sydd wedi'i drefnu gan gartrefi unigol:**

Mae pod ymweld yn strwythur ymweld dros dro/lled-barhaol cwbl gaeëdig a fydd yn cael ei leoli ar dir y cartref gofal a'i ddefnyddio i gefnogi ymweliadau. Mae ymweliadau a gynhelir yn y strwythurau hyn yn cael eu hystyried yn ymweliadau 'dan do.

### **Meini Prawf**

- Mae'r cynllun ar gael i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion nad oes ganddynt ddigon o le dan do ar hyn o bryd i groesawu ymwelwyr mewn ffordd ddiogel o ran COVID.
- Mae'r cynllun ar gael ar gyfer y podiau hynny sydd wedi'u darparu i'w llogi (nid i'w prynu) yn unig, am gyfnod o hyd at 26 wythnos. Bydd angen i'r darparwr dalu am y cyfnod llogi i'r cyflenwr ymlaen llaw. Dylid cyflwyno ceisiadau am ad-daliad i Lywodraeth Cymru erbyn 26 Chwefror. Bydd angen i ddarparwyr ddarparu tystiolaeth sy'n dangos y costau yr eir iddynt ar gyfer y cyfnod llogi. Y darparwr unigol fydd yn talu am unrhyw gyfnod llogi ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o 26 wythnos.
- Nid yw darparwyr sydd wedi derbyn pod ymweld a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun peilot yn gymwys i gael ad-daliad o gostau llogi ar gyfer uned ychwanegol.
- Os oes gan ddarparwyr wasanaethau cartref gofal lluosog, dim ond un cais i logi un pod ymweld y cânt ei gyflwyno.
- Dim ond trefniadau llogi a wnaed ar neu ar ôl 23 Tachwedd 2020 ac sy'n bodloni'r meini prawf sy'n gymwys i gael mynediad i'r gronfa.
- Mae mynediad i'r cyllid yn y flwyddyn ariannol hon (2020-21) ar sail y cyntaf i'r felin hyd nes y dyrennir yr holl arian.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu hyd at £20,000 am bob pod sy'n cael ei logi, sy'n cynnwys hyd at 26 wythnos o gostau llogi, costau yswiriant sy'n gysylltiedig â chyflenwi, costau asesu ymlaen llaw, costau danfon, costau gosod, costau symud a TAW na ellir ei adennill.

- Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu at gostau yswiriant ychwanegol tra bo'r pod ymweld yn ei le ar safle'r darparwr (gweler isod). Y darparwyr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau yswiriant priodol ar waith.
- Rhaid i'r darparwyr ddarparu tystiolaeth sy'n dangos y costau yr eir iddynt ac sy'n cael eu hawlio.
- Bydd darparwyr yn cynnal safonau atal a rheoli heintiau sy'n gyson â'r cyngor yn nogfen 'Ymweliadau â chartrefi gofal: canllawiau i ddarparwyr' Llywodraeth Cymru ynghylch ymweliadau o dan do. Mae'r ddogfen ar gael drwy'r ddolen [yma](#).
- Bydd darparwyr yn cwblhau asesiad risg penodol yn ymwneud â defnydd diogel o'r pod ymweld ar gyfer eu safle sy'n cynnwys atal a rheoli heintiau (gan gynnwys trefniadau glanhau), staffio a threfniadau archebu.
- Mae'r darparwr a'r cyflenwr yn gyfrifol am y trefniadau sy'n gysylltiedig â chyflenwi, arolygu, danfon, gosod a symud ac ati.
- **Noder:** O ystyried yr heriau eithriadol sy'n deillio o COVID-19, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol gymryd agwedd gadarnhaol at eu hymgysylltiad â chartrefi gofal lleol a sicrhau nad yw rheolaethau cynllunio yn rhwystr i gefnogi cyswllt â theulu a ffrindiau yn ystod cyfnod yr ŵyl. Mae'r Gweinidog wedi gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol beidio â cheisio cymryd camau gorfodi cynllunio a fyddai'n arwain at gyfyngu'n ddiangen ar gyfleoedd i ymweld â chartrefi gofal. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol â phodiau ymweld dros dro a byddai angen cyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer unrhyw strwythurau a osodir ac y disgwylir iddynt aros yn eu lle am fwy na 6 mis.

**Dylai pod ymwelwyr sy'n cael ei gaffael gan y darparwr fodloni'r fanyleb sylfaenol ganlynol:**

- Strwythur ymweld allanol dros dro/lled-barhaol cwbl gaeedig a fydd yn cael ei leoli ar dir y cartref gofal a'i ddefnyddio i gefnogi ymweliadau;
- Digon mawr i sicrhau pellter cymdeithasol o 2 fetr o fewn y pod ymweld - e.e. gyda phreswilydd, ymwelydd a gofalwr (os oes ei angen i gefnogi'r ymweliad);
- Yn hygyrch, gyda rampiau wrth fynedfeydd os oes angen (yn dibynnu ar amodau'r safle a graddiant);
- Gwres digonol yn ystod y gaeaf – dim gwresygydd sy'n chwythu aer;
- Awyru digonol – ffenestri sy'n agor neu ddull mecanyddol arall o awyru;

- Yn addas i gefnogi mesurau atal a rheoli heintiau priodol gan gynnwys arwynebau hawdd i'w diheintio a'u glanhau (dim carped);
- Goleuadau digonol/goleuadau argyfwng.

Bydd darparwyr hefyd yn dymuno ystyried: nifer y mynedfeydd sydd eu hangen; y defnyddio o sgriniau os yw'n briodol (mae'r defnydd o sgriniau\* yn ddewisol a dylai fod yn destun asesiad risg a gwblhawyd gan y darparwr); mynediad at gyfleusterau hylendid dwylo; yr angen am offer dolen glyw os oes angen; ffordd o alw am gymorth; dodrefn priodol.

\* Gall podiau sydd â sgriniau o'r llawr i'r nenfwd a dwy fynedfa ddarparu mesurau diogelu ychwanegol pan fo cyfraddau trosglwyddiad cymunedol yn uchel.

### **Sut i hawlio am gostau pod ymwelwyr:**

Rhaid i ddarparwr sy'n dymuno hawlio lenwi'r ffurflen ar ddiwedd y llythyr hwn a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy e-bost i'r blwch [PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru](mailto:PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru) cyn gynted â phosibl ac erbyn dydd **Gwener 26 Chwefror**.

Bydd tîm polisi cartrefi gofal Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r darparwr am ganlyniad eu cais drwy neges e-bost a ddaw oddi wrth [PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru](mailto:PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru).

Os caiff ei gytuno a'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru, dylai'r darparwr gyflwyno'r cais drwy'r Awdurdod Lleol ochr yn ochr â'i gais misol arferol am y codiad cenedlaethol ac unrhyw unrhyw lefydd gwag. Dylai'r darparwr roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am yr e-bost gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau canlyniad y cais.

### **Hawlio costau yswiriant ychwanegol sy'n ymwneud â llogi podiau ymweld o dan y cynllun peilot:**

Yn amodol ar yr arian sydd ar gael, bydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu unrhyw gostau yswiriant ychwanegol sy'n gysylltiedig â llogi pod ymweld o dan y cynllun peilot hwn am hyd at 26 wythnos.

Mae'r cynllun hwn ar gael i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion sydd wedi derbyn pod ymweld sydd wedi'i gaffael gan Lywodraeth Cymru neu sydd wedi llogi pod ymweld ar neu ar ôl 23 Tachwedd 2020 o dan y cynllun peilot.

Costau yswiriant ychwanegol yw'r rhai sy'n ymwneud â cholled neu ddifrod i'r pod ymweld tra bydd yn ei le ar safle'r darparwr.

Mae mynediad i'r arian ar sail y cyntaf i'r felin hyd nes y dyrennir yr holl arian. Y darparwyr unigol fydd yn talu am unrhyw gostau yswiriant yr eir iddynt i dalu am wythnosau ychwanegol y tu hwnt i'r cyfnod o 26 wythnos.

Dim ond un hawliad am gostau yswiriant ychwanegol y gall darparwyr ei gyflwyno ar gyfer un pod ymweld sydd wedi'i gaffael gan Lywodraeth Cymru neu a ariennir o dan y cynllun peilot.

Mae darparwyr yn parhau i fod yn atebol am unrhyw gostau yswiriant dros ben pe bai hawliad yn cael ei wneud mewn perthynas â'r pod ymweld tra bydd yn ei le ar eu safle.

### **Sut i wneud cais am yswiriant:**

Rhaid i ddarparwr sy'n dymuno hawlio lenwi'r ffurflen ar ddiwedd y llythyr hwn a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy e-bost i'r blwch [PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru](mailto:PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru) cyn gynted â phosibl ac erbyn dydd **Gwener 26 Chwefror**.

Bydd tîm polisi cartrefi gofal Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r darparwr am ganlyniad eu cais drwy neges e-bost a ddaw oddi wrth [PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru](mailto:PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru).

Os caiff ei gytuno a'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru, dylai'r darparwr gyflwyno'r cais drwy'r Awdurdod Lleol ochr yn ochr â'i gais misol arferol am y codiad cenedlaethol ac unrhyw unrhyw lefydd gwag. Dylai'r darparwr roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am yr e-bost gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau canlyniad y cais.

Yn gywir,



**ALBERT HEANEY**  
**Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol**

Copi at:  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol

## **Hawl i arian o'r Gronfa Galedi ar gyfer Podiau Ymweld â Chartrefi Gofal - Meini Prawf**

### **Sut i wneud cais:**

I wneud cais am gostau cymwys, llenwch y ffurflen hon a'i chyflwyno ar e-bost i Lywodraeth Cymru i'r blwch [PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru](mailto:PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru) cyn gynted â phosibl ac erbyn dydd **Gwener 26 Chwefror**. Bydd tîm polisi cartrefi gofal Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi am ganlyniad eich cais drwy neges e-bost a ddaw oddi wrth [PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru](mailto:PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru)

Dylid cyflwyno tystiolaeth i gefnogi eich cais, gan ddangos y costau yr ydych wedi'u hysgwyddo.

Os caiff eich hawliad ei gytuno a'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru, dylech gyflwyno'r cais drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Lleol ochr yn ochr â'ch cais misol arferol am y codiad cenedlaethol ac unrhyw unrhyw lefydd gwag. Dylech roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am yr e-bost gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau canlyniad y cais.

**Ni ddylech wneud cais drwy'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r cynllun peilot podiau ymweld ar gyfer cartrefi gofal heb gadarnhad gan Lywodraeth Cymru drwy'r blwch penodedig [PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru](mailto:PeilotPodiauYmweldLIC@llyw.cymru) bod eich cais wedi bod yn llwyddiannus.**

Enw'r cartref gofal			
Enw'r darparwr			
<i>Rydych yn cytuno i Lywodraeth Cymru roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod yn cymryd rhan yn y cynllun peilot.</i>			
	<b>Cyflenwr</b>	<b>Swm</b>	<b>Tystiolaeth wedi'i chynnwys (cliciwch)</b>
Costau llogi uniongyrchol ar gyfer pod ymwelwyr		£	<input type="checkbox"/>
Costau yswiriant ychwanegol (naill ai ar gyfer llogi uniongyrchol neu		£	<input type="checkbox"/>

logi gan Lywodraeth Cymru)			
<b>Cyfanswm</b>		£	

**Datganiad:** Rwy'n cadarnhau bod y manylion uchod yn gywir. Mae'r holl feini prawf a nodir yn llythyr Llywodraeth Cymru at ddarparwyr cartrefi gofal i oedolion, dyddiedig 15 Rhagfyr, wedi'u bodloni. Os ydych yn hawlio ad-daliad ar gyfer llogi pod ymweld, rhaid i'r pod ymweld fodloni'r fanyleb sylfaenol.

<b>Llofnodwyd ar ran y darparwr cartrefi gofal:</b>	
<i>Enw mewn priflythrennau:</i>	
<i>Swydd:</i>	
<i>Cyfeiriad e-bost cyswllt a rhif ffôn</i>	
<i>Llofnod:</i>	
<i>Dyddiad:</i>	